

No.

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G. Ball, S. Campbell, S.J. Haines, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby, M.J.G. Morgan a H.M. Payne

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro), G. Doyle a V. John (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid), Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid).

422 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

423 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan D. Dutch a H. Smith (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid)

424 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

425 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd J. Aviet fuddiant personol yn Eitem Agenda Rhif 4 – Canlyniadau Arolwg Boddhad Tenantiaid (CABT) oherwydd natur y buddiant gan fod y Cynghorydd yn denant Cyngor. Gan fod hwn yn fuddiant personol ac nid oedd yn rhagfarnu, ni adawodd y cyfarfod.

No.

Datganodd y Cynghorydd WA Hennessy fuddiant personol yn Eitem Agenda Rhif 4 – Canlyniadau Arolwg Boddhad Tenantiaid (CABT) oherwydd natur y buddiant gan fod y Cynghorydd yn denant Cyngor. Gan fod hwn yn fuddiant personol ac nid oedd yn rhagfarnu, ni adawodd y cyfarfod.

Cynghorydd H.M. Datganodd Payne fuddiant sef bod ganddi oddefeb i siarad yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg pan drafodwyd materion yn ymwneud â thai a digartrefedd yn ymwneud â chyllid ac eiddo o ystyried rôl y Cynghorydd ar gyfer Llamau (paragraffau (c), (d), (f) ac (f) o'r rheoliadau perthnasol). Pwrpas y datganiad hwn oedd hysbysu'r Pwyllgor, fel Aelod newydd, o'i gollyngiad / buddiant, a rhag ofn y byddai'r materion hyn yn cael eu codi yn y cyfarfod dan sylw.

426 CANLYNIADAU AROLWG BODDHAD TENANTIAID (CABT) (CAT) –

Croesawodd y Pwyllgor Kirsty Marshall o M·E·L Research, a oedd wedi cynnal yr arolwg tenantiaid STAR ar ran y Cyngor. Cyflwynodd hithau'r adroddiad ar y cyd â'r Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu a'r Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Tai Cyhoeddus.

Pwrpas yr adroddiad oedd rhannu adborth gan denantiaid tai Cyngor ynglŷn â'r Gwasanaethau Tai ac Adeiladu, er ystyriaeth y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi'r prif ganlyniadau o'r arolwg graddfa fawr diweddaraf o Fodlonrwydd Tenantiaid Arolwg oedd hwn a oedd yn cael ei anfon at holl denantiaid y Cyngor er mwyn gofyn a oeddent yn fodlon â'r gwasanaethau yr oedd y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu yn eu darparu. Roedd canlyniadau'r arolwg yn amlygu barn tenantiaid am y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu a hefyd yn rhoi syniad o'r hyn yr oedd tenantiaid yn ei feddwl oedd yn feysydd â blaenoriaeth i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg yn golygu bod modd cymharu newidiadau i fodlonrwydd ers 2016 (pan gwblhawyd yr arolwg STAR cyntaf), a hefyd yn galluogi cymharu â sefydliadau cymheiriaid. Roedd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i ysgogi gwelliannau yn y dyfodol mewn gwasanaethau allweddol, ac roedd y rheiny'n cael eu cyflawni drwy gynllun gweithredu ac amryw o grwpiau gorchwyl a gorffen a ganolbwyntiai ar broblemau a nodwyd yn y canlyniadau. Roedd copi o'r adroddiad llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad.

Cafodd cyflwyniad hefyd ei rannu â'r Pwyllgor, i gyd-fynd â'r adroddiad, a oedd yn cynnwys y prif bwyntiau a ganlyn:

- Cefndir / cyd-destun yr arolwg, gan gynnwys effaith COVID-19 a'r argyfwng costau byw ar gyfraddau bodlonrwydd tenantiaid a gwblhaodd yr arolwg drwy holl sector tai cymdeithasol y DU, yn ogystal â Bro Morgannwg yn benodol.
- Methodoleg: roedd y fethodoleg wedi'i seilio'n bennaf ar gynnal arolygon drwy'r post, ond gydag opsiwn ar-lein os oedd angen, ac roedd yn defnyddio cwestiynau craidd o fframwaith STAR diweddaraf Housemark. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng Mai a Mehefin 2022, gan glywed barn 925 o

No.

denantiaid, Roedd hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 24%, a oedd ymhell oddi mewn i'r gyfradd ddychwelyd ddisgwyliedig ar gyfer arolygon tai.

- Amlinellwyd y meincnodau, y dadansoddiadau a'r tueddiadau perthnasol hefyd, yn ogystal â blaenoriaethau o ran gwasanaethau a gwahaniaethau ar sail is-grwpiau a thueddiadau.
- Y negeseuon allweddol a gafwyd o'r arolwg oedd pwysigrwydd gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, a oedd yn fater o flaenoriaeth i'r tenantiaid, ac roedd y Cyngor yn ennill sgoriau uchel ar hyn, yn ogystal â chyfraddau bodlonrwydd uchel gan denantiaid wrth ystyried a oedd eu cymdogaeth yn ardal addas i fyw ynddi. Soniwyd hefyd am y metrigau 'cael gwrandawriad, rhwydd ymdrin â nhw a thaliadau gwasanaeth sy'n cynnig gwerth am arian' a oedd ymhellaf y tu ôl i feincnod Housemark ar gyfer y Cyngor, a oedd hyn yn amlygu'r angen i wella'r trefniadau i gyfathrebu â thenantiaid, yn ogystal â dangos tystiolaeth o'r ffordd yr oedd y Cyngor yn gwario taliadau gwasanaeth.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gostyngiad yn yr ystadegau ynghylch cyfathrebu â thenantiaid a gofyn am y rhesymau wrth wraidd hyn, am ei bod hi'n bwysig i'r Cyngor wybod pam bod y lefelau bodlonrwydd â chyfathrebu wedi gostwng, er mwyn helpu i ddatrys y problemau dan sylw. Oherwydd natur y cwestiynau a ddarparwyd yn yr arolwg, a oedd i raddau helaeth yn gwestiynau 'caeedig', esboniwyd nad oedd unrhyw resymau manwl am y gostyngiad hwn, er y byddai ymdrechion i geisio canfod a oedd unrhyw ffactorau neu resymau wrth wraidd hyn. Yn ogystal â hynny, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu nad oedd y gostyngiad hwn yn broblem wirioneddol, ond yn hytrach ei fod yn deillio o effaith Covid-19 a chostau byw yn dilyn hynny, er bod angen nodi bod gostyngiadau tebyg wedi'u gweld cyn hyn yn yr arolygon a gynhaliwyd yn 2016 a 2019. Oherwydd Covid-19, nid oedd tenantiaid wedi cyrchu gwasanaethau i'r un graddau ag o'r blaen, ac roedd hi'n bosib y bu oedi i waith trwsio gan nad oedd modd cael mynediad i gartrefi tenantiaid ayyb. Fodd bynnag, nid oedd y Gwasanaethau Tai wedi aros yn eu hunfan ac roeddent yn mynd i'r afael â'r materion hyn, ee, drwy gyhoeddi'r Cylchlythyr Tenantiaid a gafodd ei groesawu gan y tenantiaid. Yn rhan o'r cylchlythyr, roedd gofyn i'r tenantiaid ymgysylltu a dweud beth yr hoffent ei gynnwys yn y cylchlythyr. Ychwanegodd hefyd fod yr arolwg wedi helpu i amlygu meysydd ffocws allweddol y gallai'r Cyngor fynd i'r afael â nhw mewn modd effeithiol, hy, buddsoddi £300k yn y system TGCh Tai newydd a fyddai'n galluogi tenantiaid i gysylltu mewn amser real i wneud cais am waith atgyweirio ayyb, yn lle gorfod mynd drwy C1V neu geisio cysylltu wyneb yn wyneb â staff Tai. Fodd bynnag, byddai'r dulliau mwy traddodiadol o gysylltu'n cael eu cadw. Cafodd mesurau amrywiol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr arolwg eu hymgorffori mewn Cynllun Gweithredu yr oedd y Gwasanaethau Tai yn gweithio arno ar hyn o bryd. Mesurau eraill y cyfeiriwyd atynt oedd yr angen i wneud mwy o waith i roi gwybod i'r tenantiaid sut roedd eu rhent / taliadau gwasanaeth yn cael eu gwario, hy, drwy gyflwyno dadansoddiad y gallent gael golwg arno. Yn ogystal â hyn,

byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu cyn hir, i roi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau am feysydd i'w gwella a nodwyd o'r arolwg.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Campbell hefyd at y gostyngiad yng nghyfraddau bodlonrwydd rhai adrannau o'r arolwg tenantiaid, a gofyn sut roedd y Cyngor yn mynd ati i olrhain ac ymdrin â'r rhain, ar wahân i'r Cynllun Gweithredu, hy, a oedd unrhyw arolygon pellach yn cael eu cynnal gyda grwpiau targed o fewn y boblogaeth o denantiaid. Eglurwyd bod y Cyngor yn ymgysylltu â Phaneli Tenantiaid y Fro a hefyd yn sefydlu Paneli Craffu Tenantiaid er mwyn helpu i fynd i'r afael nifer o'r materion hyn. Nodwyd hefyd fod y gostyngiad mewn cyfraddau bodlonrwydd hefyd wedi'i weld mewn mannau eraill ymhlith landlordiaid cymdeithasol, ond nid oedd hynny'n tynnu oddi ar y ffaith bod angen i'r Cyngor wneud mwy i fynd i'r afael â'r materion hyn. O ran olrhain, roedd nifer o arolygon 'trafodiad' yn cael eu cynnal, hy, ar ôl gwneud gwaith atgyweirio i denantiaid, er mwyn cael eu hymateb, Fodd bynnag, roedd hi'n bwysig peidio cymysgu arolygon trafodiad o'r fath ag arolygon a oed yn fwy seiliedig ar ganfyddiadau, fel arolwg STAR. Prif swyddogaeth arolygon trafodiad oedd rhoi rhybudd buan i'r Cyngor ynghylch unrhyw broblemau neu dueddiadau a allai fod yn amharu ar gyfraddau bodlonrwydd tenantiaid.
- Cododd y Cynghorydd Lloyd-Selby nifer o gwestiynau ynghylch y ffigurau a gasglwyd o'r arolwg a gofyn a oedd y Cyngor bellach yn deall beth oedd disgwyliadau ei denantiaid, gan sicrhau y gallai'r Cyngor reoli disgwyliadau o'r fath yn realistig o ran y cyfyngiadau ariannol a chyfyngiadau eraill oedd o'i flaen. Gofynnodd hefyd am resymau dros yr oedi cyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hon am yr arolwg i'r Pwyllgor. Eglurwyd mai'r rheswm dros oedi cyn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor oedd y gwaith dilynol hanfodol yr oedd yn rhaid ei gwblhau gyda'r ymgynghorwyr allanol ar ôl cwblhau'r adroddiad. Fodd bynnag, roedd gwelliannau a mesurau eraill i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr arolwg wedi dechrau cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau a darparu'r data, hy, cyfarfodydd â chynrychiolwyr tenantiaid er mwyn sefydlu gwasanaethau profi fel gweithgareddau tebyg i 'siopwr cudd'. O ran ymgysylltu a rheoli disgwyliadau gyda thenantiaid a phrofi'r rhagdybiaethau yr oedd y Cyngor wedi'u gwneud drwy broses yr arolwg, esboniwyd nad oedd arolwg STAR ond yn un rhan o'r gwaith meincnodi yr oedd y Cyngor yn ei chyflawni i edrych ar werth am arian a rheoli disgwyliadau'n seiliedig ar y gyllideb gyfredol a oedd ar gael i'r gwasanaeth.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Aviet at fanteision y cylchlythyr tenantiaid a oedd yn galluogi tenantiaid i gael mewnbyn uniongyrchol i erthyglau a chynnwys y cylchlythyr. Dywedodd y byddai'n bwysig rhannu copïau o'r cylchlythyrau nesaf ag Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.
- Tynnodd y Cynghorydd Payne sylw at y ffaith bod lefelau bodlonrwydd cyffredinol yn is ymhlith aelodau o'r boblogaeth o denantiaid a oedd dan 35 oed, gan ddweud ei bod hi'n bwysig i'r Cyngor esbonio wrth y tenantiaid iau hynny beth oedd y Cyngor yn ei wneud mewn gwirionedd yn nhermau gwasanaethau tai ayyb, yr oeddent yn elwa arnynt. Eglurwyd bod y pwynt hwn wedi'i godi yn y Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid, lle nodwyd bod cyfathrebu ac ymgysylltu'n llawn â'r grwpiau oedran iau yn her gyffredinol, gan nad oeddent yn dymuno ymgysylltu drwy'r dulliau mwy traddodiadol yr oedd llawer o landlordiaid cymdeithasol ac eraill yn eu defnyddio. Ar hyn o

bryd, roedd gwaith yn cael ei wneud gan y Tîm Datblygu Cymunedol i ystyried sut orau i ymgysylltu â'r grŵp oedran hwn, gan gynnwys defnyddio mwy o ddulliau digidol i gyfathrebu, fel arolygon Snap, a oedd yn gyflymach ac yn fwy hygyrch i'r demograffeg dan sylw, a allai fod yn ceisio ymdopi â gwaith a gofynion eraill. Gallai arolygon o'r fath weithredu fel 'agorwyr tun' i amlygu problemau a thueddiadau. Yn gyffredinol, roedd pobl hŷn yn fwy tebygol o lenwi arolygon ac yn aml roeddent yn fwy bodlon ar y cyfan yn eu hymatebion, a oedd yn ymddangos yn groes i'r canfyddiad mai ond y bobl fwyaf anfodlon oedd yn dymuno llenwi arolygon o'r fath.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Haines at y gyfradd ymateb gymharol isel i'r arolwg, a gofynnodd pa ymdrechion oedd ar waith i annog cyfradd ymateb fwy yn yr arolygon nesaf, er mwyn sicrhau nad oedd gogwydd i'r data dan sylw. Eglurwyd bod yr arolygon wedi'u cynnal drwy'r post i ddechrau, a olygai fod y gyfradd ymateb rhwng 20% a 30% oddi mewn i ystod Housemark ar gyfer y gyfran ddisgwyliedig o ymatebion ar y cyfan. Ymhlith y methodolegau eraill y gellid hefyd eu defnyddio yr oedd gohebiaeth e-bost os oedd cyfeiriadau e-bost ar gael, ond roedd hi'n bwysig ystyried yn ofalus y gallu i gymharu data wrth ddefnyddio methodolegau amrywiol i gasglu ymatebion. Ffyrdd eraill o annog ymatebion i arolygon o'r fath oedd defnyddio eitemau fel y cylchlythyr i denantiaid ar y cyd â'r pwyslais ar fanteision rhoi adborth er mwyn helpu i wella gwasanaethau yr oedd tenantiaid yn eu defnyddio. Nodwyd bod nifer o gymhellion wedi'u defnyddio'n flaenorol ar gyfer y math hwn o arolwg, fel cynnig talebau i bobl a oedd yn dychwelyd yr arolygon, a bu hynny o gymorth i roi hwb i'r gyfradd ymateb. O safbwynt ystadegol, roedd hi'n bwysig nodi hefyd y byddai pwynt penodol yn cael ei gyrraedd ar ôl i gasgliad digonol o bobl roi canlyniadau, ac na fyddai ychwanegu unrhyw bobl ychwanegol yn achosi unrhyw newid o bwys i ganlyniadau'r arolwg hwnnw.
- Pwysleisiodd yr Is-Gadeirydd fod angen i'r Cyngor ac eraill estyn allan at y manau lle'r oedd pobl yn ymgasglu, a hefyd ymgysylltu â grwpiau hŷn yn ogystal â phobl iau er mwyn helpu i annog rhagor o adborth ac ymatebion mewn arolygon yn y dyfodol. Byddai hyn yn sicrhau ein bod yn clywed lleisiau'r grwpiau hyn yn gysylltiedig â'r Cyngor a'r gwasanaethau a ddarperir i denantiaid. Roedd yn ymddangos bod y Cyngor yn dda iawn wrth ymgysylltu'n gychwynnol a llunio strategaeth i ddirwyn arolygon o'r fath i ben, ond efallai nad oedd gystal ar y daith rhwng y naill a'r llall. Yn rhan o hyn, roedd hi'n hanfodol sicrhau bod pobl yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf. Ymhellach i hyn, gofynnodd y Cynghorydd a oedd y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Tenantiaid yn rhoi sylw i'r ystyriaethau hyn. O ran ymgysylltu ymhellach â thenantiaid y Cyngor, eglurwyd bod y Cyngor yn cynyddu ei amlygrwydd o fewn stadau tai drwy drefnu i swyddogion Tai siarad â thenantiaid ar garreg y drws a thrwy gyfathrebu a derbyn adborth wrth ddarparu gwasanaethau amrywiol i denantiaid. Roedd yn hanfodol i swyddogion gael eu gweld a bod yn hawdd i denantiaid Cyngor gysylltu â nhw, ac yn rhan o hyn roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o flociau cymunol, naill ai bob mis neu'n amlach na hynny, yn rhan o'r gwaith i ymgysylltu ymhellach â phreswylwyr a thenantiaid. Roedd manylion ffôn ac e-bost uniongyrchol y staff hefyd ar gael i denantiaid. Roedd hyn o gymorth i feithrin perthynas gadarnhaol rhwng swyddogion a Tai'r Cyngor a

No.

thenantiaid, a hefyd o gymorth i gasglu gwybodaeth gan denantiaid am broblemau o fewn eu stadau, fel tipio anghyfreithlon.

- Roedd y Cynghorydd Hennessy a gweddill y Pwyllgor yn dymuno canmol y gwaith a wnaed gan gynrychiolwyr a gweithgorau tenantiaid fu wrthi'n ddiwyd yn ymgysylltu ac yn craffu, gan helpu'r Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau yr oedd ar denantiaid y Cyngor eu hangen.

Ar ôl ystyried y Adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r adroddiad yn amlygu'r adborth a ddarparwyd gan denantiaid tai Cyngor.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

427 GWASANAETH TROSEDDAU IEUENCTID: ADRODDIAD PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN (CGC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) (ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Rheolwr Gweithredol - Cymorth Cynnar ac Atal). Diben yr adroddiad oedd hysbysu'r Pwyllgor am Berfformiad Diwedd Blwyddyn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ystod y cyfnod Ebrill 2022 - Mawrth 2023. Pwrpas yr adroddiad oedd galluogi Aelodau Etholedig i oruchwylio perfformiad y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn effeithiol drwy nifer o ddangosyddion perfformiad: Cenedlaethol (Cymru a Lloegr), Dangosyddion Datganoledig Cymru a Dangosyddion Perfformiad Lleol (a gytunwyd gan Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid). Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd yn cynnwys:

- Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi cael ei ailenwi'n ddiweddar yn Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Chymorth Cynnar (GCICChC), yn dilyn ymgynghoriadau â rhanddeiliaid amrywiol ac aelodau'r Gwasanaeth ac i roi adlewyrchiad gwell o ethos dargyfeiriol ac ataliol y Gwasanaeth.
- Gostyngiad o 31% yn nifer y newydd-ddyfodiaid o gymharu â'r un cyfnod y llynedd yn seiliedig ar y gyfradd fesul 100,000 ar gyfer y Fro. Roedd hwn yn ganlyniad cadarnhaol o'i gymharu â'r ffigurau a welwyd mewn Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) eraill yng Nghymru ac mewn aelodau eraill o 'deulu' y GCI'. Roedd hyn yn adlewyrchu'r polisiâu hyblyg ond cadarn yn y Fro ar gyfer atal ac ymyrryd.
- O ran data aildroseddu, roedd ffigurau'r Fro ar duedd debyg i rai ardaloedd eraill, gyda gostyngiad bychan yn nifer yr achosion o aildroseddu fesul troseddwr. Byddai'r GTI / GCICChC yn parhau i gwblhau archwiliadau o achosion o aildroseddu ar ffeil, er mwyn helpu i ddadansoddi'r achosion hynny. Cynhaliwyd dadansoddiad o safbwynt aml-asiantaeth er mwyn canfod unrhyw rwystrau neu gyfleoedd posibl i ddysgu, ac i roi tystiolaeth o arfer gorau o ran sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant a gefnogir.
- O ran Cyfiawnder Adferol, daeth 73 o ymyriadau i ben yn y cyfnod Ebrill – Mawrth 2023 a nodwyd 70 o ddiodesddefwyr. Cynigiwyd cyfiawnder adferol

No.

uniongyrchol ac anuniongyrchol i 65 o ddiodefwyr. Bu ymgais i gysylltu â'r 8 diodefwr arall dros y ffôn a thrwy lythyr ond ni chafwyd ymateb, neu gwrthodwyd y cyswllt. Derbyniodd 7 diodefwr gyfiawnder adferol uniongyrchol ac 11 gyfiawnder adferol anuniongyrchol. Ymatebodd 7 diodefwr i'r holiadur i ddiodefwyr a chadarnhau eu bod yn fodlon â'r broses. Roedd hi'n bwysig pwysleisio mai proses wirfoddol oedd hon i bob parti, ac mai ffocws allweddol y Gwasanaeth, fel yr adlewyrchwyd yn y mesurau perfformiad oedd cynyddu adborth gan y diodefwr ac ymgysylltiad wyneb yn wyneb â'r diodefwr.

- Yn dilyn Arolygiad Ei Fawrhydi o'r Gwasanaeth Prawf, a arolygodd y GTI ym mis Ebrill 2022 lle gwerthuswyd y Gwasanaeth yn 'dda' ar sail y canfyddiadau, roedd y Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni argymhellion yr Arolygwyr a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Troseddau leuenctid Bro Morgannwg 2022-23.
- Os oedd yr Aelodau am wneud cais am ddata ychwanegol yn gysylltiedig â'r maes hwn, byddai swyddogion yn ymchwilio i'r rheiny.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

- Cododd y Cynghorydd Payne nifer o gwestiynau ynglŷn â'r dull o gyfrif y bobl ifanc a oedd yn cyflawni troseddau ym mhob chwarter, y posibilrwydd o ymweld â'r Gwasanaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'i waith, a'r gostyngiad yn nifer y newydd-ddyfodiaid sy'n dod drwy'r system ac effaith hynny ar y Gwasanaeth. Mewn ymateb i hyn, o ran cyfrif pobl ifanc a oedd wedi cyflawni troseddau, esboniwyd bod y data cysylltiedig yn gyfanredol, ac na fyddent yn cael eu cyfrif fel unigolyn ychwanegol. Fodd bynnag, byddai'r cyfnod lle byddai troseddau'n ailddigwydd yn cael ei ymgorffori a'i gyfrif wrth gydgasglu'r data. O ran ymweld â'r Gwasanaeth, awgrymwyd y dylid gwahodd yr Aelodau i ddiwrnod agored a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer 2024. Yn olaf, o ran y gostyngiad mewn ffigurau troseddwy'r ifanc, roedd a wnelo hyn â phlant a oedd wedi'u cofnodi'n newydd-ddyfodiaid. Roedd hi'n bwysig pwysleisio bod y Gwasanaeth yn dal i weithio gyda'r plant hyn, ond yn gwneud hynny'n gynharach i'w hatal rhag cael eu derbyn i'r system yn y lle cyntaf. Roedd hi hefyd yn bwysig nodi nad oedd llwyth gwaith y Gwasanaeth wedi gostwng yn sgil hyn, ond yn hytrach bod y gwaith wedi newid tuag at ymagwedd fwy rhagweithiol, dargyfeiriol ac ataliol er mwyn atal plant rhag dod drwy'r system, a bod y gwaith hwnnw wedi'i brofi'n llwyddiannus. Ymhellach i hyn, yn sgil cais llwyddiannus am gyllid bu modd recriwtio i swydd ychwanegol o fewn y Gwasanaeth er mwyn helpu i gynnal y rhaglen ataliol hon.
- Holodd y Cynghorydd Lloyd-Selby ynghylch pa fesurau oedd yn cael eu cymryd i atal plant, a oedd yn ymgasglu mewn grwpiau mawr mewn mannau cyhoeddus, rhag 'croesi'r llinell' a mynd i ymddwyn yn fwy gwrthgymdeithasol, a throeddu o bosib, ac ynghylch yr angen i'r Cyngor fabwysiadu dull cydgysylltiedig â chymunedau lleol i gynnig cefnogaeth a sicrwydd. Mewn ymateb i hynny, esboniwyd bod ymddygiad o'r fath yn cynnwys oedolion a phobl iau a'i bod felly'n anodd iawn nodi plant neu bobl ifanc penodol a allai fod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch o'r fath mewn ardaloedd o'r Barri ac mewn mannau eraill yn y Fro. Fodd bynnag, roedd

GCICHC yn gweithio'n agos â chydweithwyr Diogelwch Cymunedol a phartneriaid eraill er mwyn ceisio ymyrryd yn yr amgylchiadau hyn, ac ar y cyfan roedd hyn eisoes wedi creu canlyniadau eithaf cadarnhaol. Roedd hi'n bwysig nodi bod rhai o'r plant hyn yn eithriadol o agored i niwed, ac y gallai fod ganddynt nodweddion bregus a heriau ychwanegol lle'r oedd angen ymgysylltu ar raddfa llawer ehangach, o ran addysg a mathau eraill o gymorth. Yn rhan o waith y GCICHC â phartneriaid, roedd hi'n hollbwysig nodi ardaloedd problemus er mwyn rhoi mesurau ar waith i ymgysylltu â phlant, ac roedd cais pellach am arian wedi'i gyflwyno i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin fel bo modd gweud rhagor o waith diogelwch cymunedol. Fel rhan o ddull ehangach o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau ymhlith plant a phobl ifanc, byddai GCICHC, gyda phartneriaid, yn edrych ar ddiogwyddiadau ymgysylltu â ieuencid, y gellid eu defnyddio i addysgu pobl ifanc ynghylch camddefnyddio sylweddau, troseddau cyllyll ayyb. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd am y dull aml-asiantaeth a oedd yn cael ei ddefnyddio i ymdrin â phroblemau mewn ardaloedd fel y Glannau, Sgwâr y Brenin ac o amgylch Heol Holltwn, y Barri. Pwysleisiwyd hefyd fod angen cynnwys y cymunedau lleol yr effeithir arnynt er mwyn rhoi sicrwydd iddynt a hefyd er mwyn iddynt helpu i gyfrannu at ymdrin â'r materion hyn a chynnig cymorth. Gofynnodd y Cynghorydd hefyd am gael ychwanegu astudiaethau achos mewn adroddiadau yn y dyfodol, gan gynnig enghreifftiau o'r gwaith ymyrryd, dargyfeirio a rhagweithiol yr oedd y Gwasanaeth yn ei wneud. Eglurwyd y gellid darparu hynny mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

- Ar ymholiad y Cynghorydd Aviet ynghylch cefnogaeth i deuluoedd plant neu bobl ifanc a oedd wedi cyflawni troseddau, eglurwyd bod y Gwasanaeth yn mabwysiadu ymagwedd gyfannol at hyn, lle byddai cymorth yn cael ei gynnig i'r teulu yn ogystal â'r unigolyn ifanc dan sylw. Byddai'r teulu'n cymryd rhan yn y gwaith i gefnogi'r unigolyn ifanc, a phe bai angen byddai'r Gwasanaeth yn gwneud atgyfeiriadau priodol i unrhyw wasanaethau cymorth a allai roi cymorth a chynngor pellach i'r teulu, yn ogystal ag unrhyw gymorth i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc drwy'r Gwasanaethau Plant, drwy ymagwedd aml-asiantaeth. Bu heriau wrth recriwtio Swyddog Rhianta a allai gefnogi'r broses hon ymhellach, ac roedd y swydd wedi cael ei hysbysebu am y drydedd waith i weld a oedd gan unrhyw un ddiddordeb. Byddai'r rôl hon yn helpu i gryfhau'r gwaith sydd eisoes yn digwydd, o ran darparu ffurfiau ychwanegol o gymorth i deuluoedd a phobl ifanc, ac i nodi risgiau fel camfanteisio ar blant.
- Hysbyswyd y Pwyllgor hefyd ynghylch gwaith ymyrryd yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a wneir ar y cyd â'r gymuned; yn benodol, roedd GCICHC bob amser yn awyddus i gynnwys elfen o gyfiawnder adferol yn gysylltiedig â throseddau cysylltiedig a gyflawnwyd gan bobl ifanc, yn ogystal â monitro a cheisio nodi dioddefwyr a oedd yn barod i gymryd rhan yn y broses.
- Gyda chaniatâd i siarad, cymeradwyodd y Cynghorydd Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg) yr adroddiad a gofynnodd a ellid rhannu'r adroddiad hwn â'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn y dyfodol, yn ogystal â gwahodd aelodau'r Pwyllgor hwnnw i ymweld â'r GCICHC yn ei swyddfa, yn rhan o ymagwedd fwy cydgysylltiedig, ac yn nhermau'r gwaith rhwng Pwyllgorau a gwaith gyda'r

No.

GCICHC ac asiantaethau eraill. Eglurwyd bod partneriaeth effeithiol eisoes yn cael ei chynnal drwy Fwrdd Rheoli GTI/GCICHC y Fro, a oedd yn cynnwys nifer o asiantaethau, yn ogystal â pherthnasoedd cryf â gwasanaethau addysg o fewn y Fro.

Ar ôl ystyried y Adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD -

- (1) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad perfformiad diwedd blwyddyn ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a Chymorth Cynnar (y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid gynt).
- (2) Y dylid gwahodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Cartrefi a Chymunedau Diogel i'r diwrnod agored arfaethedig ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a Chymorth Cynnar.
- (3) Y dylid cynnwys astudiaethau achos ynghylch yr ymyriadau a'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a Chymorth Cynnar ar gyfer adrodd yn y dyfodol.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn i'r Pwyllgor gael gwell dealltwriaeth a dealltwriaeth o'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a Chymorth Cynnar.
- (3) Rhoi gwell dealltwriaeth i'r Pwyllgor o'r gwaith ataliol, ymyrraeth a mathau eraill o waith a wneir gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a Chymorth Cynnar.

428 POLISI BYW'N ANNIBYNNOL (CL) –

Rhoddodd y Rheolwr Gweithredol, Adfywio, amlinelliad o'r adroddiad i'r Pwyllgor. Pwrpas yr adroddiad oedd esbonio'r bwriad i weithredu Polisi Byw'n Annibynnol ym Mro Morgannwg i'w ystyried gan y Pwyllgor cyn i'r Cabinet fwrw golwg arno.

Roedd drafft y Polisi Byw'n Annibynnol (ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad ac a ddisgrifiwyd yn y cyflwyniad / sioe sleidiau gyfatebol) yn amlinellu strategaeth Cyngor Bro Morgannwg i hwyluso addasiadau i gartrefi a oedd yn galluogi unigolion i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi, yn enwedig y rhai a oedd angen cymorth. Roedd yn sefydlu canllawiau, yn hysbysu ymholwyr am y darpariaethau sydd ar gael, ac yn mynd i'r afael ag anghenion unigol yn effeithiol. Roedd y Grantiau perthnasol yn cyllido gwaith i addasu cartrefi rhent/a oedd yn eiddo preifat fel bo modd i breswylwyr fyw mor annibynnol ag a oedd yn bosibl yn eu cartref eu hunain gyhyd ag y bo modd. Dyma rai pwyntiau allweddol o'r adroddiad a'r cyflwyniad:

- Natur amlweddog y cefndir i'r newidiadau arfaethedig - yn amrywio rhwng newidiadau i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru (LIC) a'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl (DFG) / Adroddiad Argymhellion i'r Dyfodol ar gyfer Addasiadau.
- Ymgorffori cyngor ac arweiniad perthnasol gan LIC i'r Polisi drwy gyflwyno Grant Addasiadau Dewisol newydd (DAG), ymagwedd fwy cyson yn gysylltiedig ag addasiadau a grantiau i fyw'n annibynnol, a chael gwared â phroffion modd, a allai olygu bod y bobl hynny ag angen gwirioneddol, ac sydd angen cymorth i gael addasiadau yn eu cartref yn cael eu heithrio oherwydd eu hamgylchiadau, er eu bod o fewn dim i fod yn gymwys.
- Manylion yn gysylltiedig â phrif gydrannau'r polisi newydd, gan gynnwys y DFG statudol, y DAG newydd a'r grant Adeoli ar gyfer addasiadau canolig a mawr, ynghyd â'r defnydd o gynadleddau achos ac ymagwedd aml-adrannol, aml-ddisgyblaeth gan y Cyngor a'i bartneriaid er mwyn cynnal asesiad digonol a theg o'r ceisiadau hyn, gan gadw golwg ar y tymor hir.
- Ynglwm wrth hyn, byddai dull newydd o ariannu'r addasiadau dan sylw:
 - DFG: gyda Phrawf Modd, a phridiant 10 mlynedd ar eu heiddo.
 - DAG: heb Brawf Modd, a phridiant hyd ddiwedd oes ar eu heiddo.
 - Grant adeoli os nad oedd yr addasiad a gynigiwyd yn ddichonadwy neu'n ymarferol.
 - Ar gyfer DFG a DAG, byddai'r cyllid yn y pen draw yn cael ei adennill a'i ddefnyddio eto i gyllido mwy o waith yn y dyfodol.
- Ar gyfer addasiadau llai, y ffocws nawr fyddai gwneud defnydd gwell o aseswyr Gofal a Thrwsio yr ymddiriedir ynddynt er mwyn helpu i gwblhau'r rhain, gan ryddhau gwasanaethau Therapi Galwedigaethol.
- Creu un tîm addasiadau a Therapi Galwedigaethol.
- Ymdriniwyd hefyd ag ystod a graddfa'r addasiadau a wnaed, yn ogystal â'r raddfa ariannol a'r cyfyngiadau ar y rheiny, a'r goblygiadau o ran y gyfraith a pholisi.

Roedd y Polisi Byw'n Annibynnol yn golygu y gallai unigolion barhau i ffynnu yn eu cartrefi drwy sicrhau tryloywder, cydweithredu a chefnogaeth, drwy gynnig opsiynau ychwanegol, a'u galluogi drwy hynny i gadw eu hymreolaeth a'u hansawdd bywyd am gyfnod hwy, yn ogystal â helpu'r Awdurdod Lleol i reoli a lliniaru ei gostau gofal cymdeithasol yn fwy effeithiol.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan aelodau'r Pwyllgor ac eraill:

- Roedd y Cynghorydd Morgan yn croesawu'r Polisi newydd, yn enwedig ac ystyried bod poblogaeth y F ro yn heneiddio, a phryderon preswylwyr hyn ynghylch costau gofal. Byddai'r Polisi yn helpu i atal pobl hyn rhag gorfod aros yn hirach nag sydd angen yn yr ysbyty, oherwydd gellid bellach addasu / diogelu eu cartrefi'n ddigonol. Roedd hi'n bwysig rhannu'r wybodaeth hon â phreswylwyr er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r cyllid a'r cymorth sydd ar gael i addasu eu cartrefi neu gartrefi eu teulu.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Campbell ynghylch effaith costau uchel deunyddiau a llafur, a'r ffaith bod y costau hynny'n cynyddu, ar y mathau amrywiol o arian grant ar gyfer addasiadau, yn enwedig o ran terfynau uchaf statudol y grantiau, esboniwyd bod y Cyngor yn caniatáu grant(iau) uwch na'r terfynau penodedig yn ôl disgrisiwn (hy, ar gyfer DFG, y terfyn

statudol oedd £36,000 a'r uchafswm grant dewisol oedd £60,000). Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos y ceisiadau hynny lle'r oedd hi'n glir y byddai'r addasiadau'n helpu i greu budd sylweddol i'r ymgeisydd/ymgeiswyr dan sylw ac yn arbed costau darparu gofal cymdeithasol iddynt yn y tymor hwy. Her arall oedd yr ôl-groniad yn y cyflenwad o offer arbenigol ar gyfer addasiadau yn ogystal â'r angen i ail-dendro oherwydd diffyg contractwyr addas i wneud gwaith addasu, ac roedd y Cyngor hefyd yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Lloyd-Selby at raglen adeiladu tai'r Cyngor a'r ymdrechion i ddiogelu'r cartrefi hyn i'r dyfodol yn wyneb poblogaeth sy'n heneiddio'n gynyddol yn y Fro, hy, pwyntiau pŵer wrth ymyl grisiau i osod cadeiriau esgyn ac ati. Roedd y Polisi newydd i'w groesawu'n fawr, ond roedd yn bwysig ei fod hefyd yn cyfeirio at gymorth eiriolaeth i'r bobl hynny oedd ei angen fel rhan o unrhyw broses apelio, neu i'r bobl hynny a oedd yn gwneud cais am arian grant / addasiadau a allai fod yn agored i niwed oherwydd oedran, anabledd neu faterion iechyd meddwl. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol, Adfywio fod y pwynt ynghylch cymorth eiriolaeth yn ddilys, ac y byddai'r awgrym hwn yn cael ei gynnwys wrth bennu'r Polisi terfynol, ac y byddai'r fframwaith cynadleddau achos wedi'i ddylunio i alluogi penderfynwyr i roi ystyriaeth i gymorth eiriolaeth hefyd. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am gael cyflwyno awgrym y Cynghorydd ynghylch eiriolaeth ymlaen fel sylw/argymhelliad i'r Cabinet.
- Gyda chaniatâd i siarad, dywedodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y byddai'r Polisi hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallai'r preswylwyr mwyaf agored i niwed sy'n byw yn y Fro barhau i fyw yn eu cartrefi, gydag urddas a chyda'r addasiadau angenrheidiol wedi'u cwblhau fel bo modd rhoi cymorth digonol i'r preswylwyr ac, yn y tymor hwy, darparu'r gofal mwyaf effeithlon a chost-effeithiol.
- Gofynnodd G. Doyle, Cynrychiolydd Tenantiaid, sut y gallai preswylwyr y Fro wneud cais am gyllid o'r fath. Eglurwyd bod y rhan fwyaf o geisiadau'n cael eu cyflwyno drwy atgyfeiriadau gan Therapyddion Galwedigaethol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol (hy, yn rhan o'r broses o ryddhau o'r ysbyty, neu ar gyfer pobl a oedd angen gofal a chymorth ychwanegol oherwydd anabledd, oedran ac ati), er y gallai pobl hefyd wneud cais uniongyrchol i'r tîm perthnasol dros y ffôn a thrwy e-bost.

Ar ôl ystyried y Adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD -

- (1) Y dylid cyfeirio'r Polisi Byw'n Annibynnol drafft i'r Cabinet i'w ystyried.
- (2) Bod y sylw(au) canlynol gan y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel yn cael eu trosglwyddo i'r Cabinet:

Dylai'r Polisi Byw'n Annibynnol drafft gynnwys manylion ynghylch y cymorth eiriolaeth sydd ar gael i bobl sy'n gwneud cais am gyllid o dan y polisi hwn ac y gallai fod angen cymorth neu gymorth ychwanegol arnynt oherwydd eu hoedran, anabledd neu natur agored i niwed arall.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Galluogi'r Cabinet i ystyried a chymeradwyo'r Polisi Byw'n Annibynnol.
- (2) Er mwyn i'r Cabinet ystyried y sylw(au) gan y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel cyn cymeradwyo'r Polisi Byw'n Annibynnol.

429 TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI CHWARTER 1AF AC 2IL 2023/24 AC ATODLEN DIWEDDARU RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR 2023/24 (CAC) -

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu. Ei bwrpas oedd adrodd ar gynnydd argymhellion Craffu ac ystyried y Flaenraglen Waith, ynghyd ag unrhyw lithriant ar gyfer 2023/24.

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau ynghylch y cynnydd yn gysylltiedig â'r argymhellion yr oedd y Pwyllgor Craffu wedi'u gwneud, ac Amserlen y Flaenraglen Waith a oedd wedi'i diweddarau ar gyfer 2023/24.

- 2019-20 Heb eu cwblhau (ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad);
- 2021-22 Heb eu cwblhau (ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad);
- Orlhain Argymhellion y Chwarter 1af Ebrill i Fehefin 2023 (ynghlwm yn Atodiad C i'r adroddiad);
- Orlhain Argymhellion yr 2il Chwarter Gorffennaf i Fedi 2023 (ynghlwm yn Atodiad D i'r adroddiad);
- Amserlen wedi'i diweddarau ar gyfer Blaenraglen Waith 2023/24 (ynghlwm yn Atodiad E i'r adroddiad).

Amlinellwyd hefyd sut y gallai Aelodau chwarae mwy o ran yn y Flaenraglen Waith a'r broses graffu. Ymhellach i hyn, yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 17eg Mai 2023 ynghylch Orlhain Argymhellion Craffu 4ydd Chwarter 2022/23 ac Amserlen Arfaethedig y Flaenraglen Waith Flynyddol 2023/24 (gweler cofnod 34), holodd yr Is-Gadeirydd a oedd y papur cefndir ar Rolau a Chyfrifoldebau Craffu a'r Cabinet o 2017 yn dal yn addas i'r diben. Sefydlwyd wedyn fod y fersiwn hon o'r ddogfen wedi'i huwchlwytho ar ddamwain, a'i bod mewn gwirionedd wedi'i diweddarau yn 2021. Eglurodd y Swyddog fod y ddogfen/ddolen berthnasol gyfredol bellach wedi'i hychwanegu at yr adroddiad.

Yn dilyn yr adroddiad, holodd yr Is-Gadeirydd am lithriant y Diweddariad Blynyddol - Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid, a oedd i fod i gael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor, ac a fyddai wedi cyd-fynd â'r eitem ar yr agenda ynghylch canlyniadau'r Arolwg Bodlonrwydd Tenantiaid (STAR). Eglurodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu fod y llithriant hwn yn deillio o broblemau capasiti o fewn y Gwasanaethau Tai. Roedd ymdrechion ar droed i recriwtio er mwyn datrys hyn, a'r nod oedd cyflwyno'r Strategaeth gerbron y Pwyllgor yn fuan yn 2024.

Ar ôl ystyried y Adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

No.

ARGYMHELLWYD -

- (1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A i D i'r adroddiad.
- (2) Cymeradwyo'r Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddarau ar gyfer 2023/24 sydd ynghlwm yn Atodiad E a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.